Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

# Trafodaeth Llywodraethu y Bwrdd Rheoli
# Management Board Governance Discussion

## Nodyn o Drafodaeth 12 Hydref 2010

**Presennol:** **Claire Clancy (Prif Weithredwr a Chlerc) (Cadeirydd)**
**Adrian Crompton (Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad)**
**Dianne Bevan (Prif Swyddog Gweithredu)**
**Keith Bush (Prif Gynghorydd Cyfreithiol)**
**Helen Birtwhistle (Pennaeth Cyfathrebu Allanol)**
**Mair Parry-Jones (Pennaeth y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi)**
**Kathryn Potter (Pennaeth Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau)**
**Connie Robertson (Pennaeth Ystadau a TGch)**
**Craig Stephenson (Pennaeth y Rhaglen Newid)**
**Sian Wilkins (Pennaeth yr Adran Ddeddfwriaeth a Gwasanaethau Siambr)**
**Helen Finlayson (Ysgrifenyddiaeth)**
**Jane Glass (Ysgrifenyddiaeth)**

### Nod 1: Hyrwyddo datganoli ac annog mwy o bobl i gymryd rhan yn y broses

**Nododd y bwrdd bod gan y Prosiect Uwchraddio/Newid GCCh FTR Gold statws Melyn oherwydd oedi gan Siemens wrth gymeradwyo'r broses caffael. Roedd gan y prosiect BDT newydd a'r disgwyl oedd y byddai hyn yn galluogi ei erbyn Ebrill 2011 a chodi'r statws CMG I Wyrdd. Y bwriad oedd trefnu cyfarfod i Sulafa Halstead, Mair Parry-Jones a Sian Wilkins, gyda Dave Veryard o Siemens i sicrhau agwedd cydlynol tuag at gyflenwi prosiectau cyfredol Busnes y Cynulliad. Nid oedd sicrhad wedi ei dderbyn eto y byddai'r tri phrosiect oll yn cael eu cyflenwi cyn diwedd y flwyddyn ariannol. Cytunodd Craig Stephenson i geisio cael y sicrhad yma**

**Gweithred: Craig i geisio cael sicrhad ynghylch chyflenwi prosiectau.**

**Sulafa Halstead, Mair Parry-Jones a Sian Wilkins i gyfarfod â Dave Veryard o Siemens.**

**Nod 2: Undod, arweinyddiaeth ac ymateb beiddgar i newidiadau cyfansoddiadol**

**Cytunodd y Bwrdd y dylid diweddaru'r dangosydd ar weithredu argymhellion Yn Gywir I Gymru i adlewyrchu sefydliad y Bwrdd Taliadau a rheolaeth y risgiau cysylltiedig.**

**Nododd y Bwrdd bod gweithredu argymhelliad 24, ynghylch cartrefi ym Mae Caerdydd, yn ddibynnol ar dderbyn tendrau gan werthwyr tai priodol. Pe bai nifer annigonol o dendrau yn cael eu derbyn, hwyrach y byddai angen cynlluniau wrth gefn.**

**Gweithred: Connie Robertson i ddanfon e-bost atgoffa.**

**Nod 3: Parch, cywirdeb a llywodraethu da ym mhob agwedd ar ein gwaith**

**Nododd y Bwrdd argymhelliad Adroddiad Green ar Wastraff Llywodraethol y dylid gwneud i ffwrdd a'r targed o dalu anfonebau o fewn deng niwrnod. Bu'r Bwrdd yn trafod a ddylai'r Cynulliad wneud rhywbeth tebyg.**

**Gweithred: Yr Adran Gyllid i ystyried targedau talu.**

**Ystyriodd y Bwrdd y nifer o ddiwrnodau gwaith y gweithiwr y flwyddyn a gollwyd ar gyfartaledd, gan nodi mai gwelliant oedd y duedd, a thrafododd a fyddai'r nod yn dod yn fwy anodd ei gyrraedd o dan yr amgylchiadau economaidd heriol yr oedd y Cynulliad yn eu hwynebu. Nodwyd mai rheolaeth dda ar absenoldeb salwch gan AD ac o fewn timoedd oedd yn gyfrifol am y gwelliant.**

**Nododd y Bwrdd y byddai cyfweliadau ar gyfer swydd y Comisiynydd Safonau yn cael eu cynnal ar 18 Hydref, a bod y Pwyllgor Safonau yn golygu cynnal gwrandawiad cadarnhaol ar 21 Hydref. Nodwyd y byddai'r Comisiynydd Safonau presennol yn parhau yn ei swydd tan y gwnaed penodiad newydd, ac felly nid oedd rheswm ymarferol ei bod yn rhaid i'r gwrandawiad cadarnhaol ddigwydd wythnos nesaf.**

**Gweithred:**

**Keith Bush i siarad â Chlerc y Pwyllgor Safonau ynghylch aildrefnu dyddiad y gwrandawiad.**

**Nod 4: Gweithio'n gynaliadwy**
**Dim trafodaeth.**

**Nod 5: Y gwasanaeth gorau, wedi ei ddarparu yn y ffordd fwyaf effeithiol**

**Derbyniodd y Bwrdd ddiweddariad ar y gwaith o drosglwyddo UNO i Aelodau, a nodwyd anesmwythyd bod rhai Aelodau yn dewis gwneud eu cwynion drwy'r cyfryngau. Nododd y Bwrdd y byddai tîm cyfryngau'r Cynulliad yn barod i weithio gydag Aelodau os oedd gofyn, er mwyn hybu enw da'r Cynulliad. Nodwyd hefyd y byddai'r gwaith o drosglwyddo Aelodau yn cael ei gwblhau yr wythnos ganlynol, ac y dylai swyddogion barhau i nodi problemau dros y ffon neu drwy e-bost at y ddesg gymorth**

**Cwestiynodd y Bwrdd berchenogaeth y Rhaglen Effeithlonrwydd a'r Strategaeth Buddsoddi Cyfalaf, a gwnaeth gais am i esboniadau am ychwanegiadau at y dangosfwrdd gael eu cynnwys yn y nodyn briffio, ac yn arbennig dylid nodi os oedd angen i'r Bwrdd Newid eu trafod.**

**Gweithred: Craig Stephenson i siarad â Steve O'Donoghue ynghylch y Rhaglen Effeithlonrwydd a'i throi i mewn i rywbeth cyffyrddadwy i'w ddwyn gerbron y Bwrdd Rhaglen Newid.**

**Cwynion a Chanmoliaeth**

**Dim trafodaeth**

**Risgiau Arwyddocaol**

**Dim trafodaeth**